**LGH-05-02 (min)**

**Y PWYLLGOR LLYWODRAETH LEOL A THAI**

**COFNODION CYFARFOD Y PWYLLGOR**

| | |
|---|---|
| **Dyddiad:** | Dydd Mercher 6 Mawrth 2002 |
| **Amser:** | 2.00pm hyd 5.00pm |
| **Venue:** | Ystafell Bwyllgora 3, Adeilad y Cynulliad Cenedlaethol |

**Yn bresennol:**

*Aelodau:*

| | |
|---|---|
| Gwenda Thomas | Castell-nedd |
| (Cadeirydd) | |
| Peter Black | Gorllewin De Cymru |
| (Dirprwy Weinidog) | |
| Rosemary Butler | Gorllewin Casnewydd |
| Janet Davies | Gorllewin De Cymru |
| William Graham | Dwyrain De Cymru |
| Edwina Hart (Gweinidog) | Gyr |
| Peter Law | Blaenau Gwent |
| Dai Lloyd | Gorllewin De Cymru |

*Yn bresennol:*

| | |
|---|---|
| Norma Barry | Y Gyfarwyddiaeth Gymunedau |
| Lynne Schofield | Y Gyfarwyddiaeth Gymunedau |

| | |
|---|---|
| John Bader | Y Gyfarwyddiaeth Dai |
| Philip Gardiner | Y Gyfarwyddiaeth Dai |
| Francois Samuel | Y Gyfarwyddiaeth Dai |
| Dylan Hughes | Swyddfa'r Cwnsler Cyffredinol |
| Imtiaz Farookhi | Prif Weithredwr, Cyngor Cenedlaethol Adeiladu Tai |
| Rod MacEachrane | Cyfarwyddwr Masnachol, Cyngor Cenedlaethol Adeiladu Tai |
| Christopher Mills | Cyfarwyddwr Technegol, Cyngor Cenedlaethol Adeiladu Tai |
| Alan Wallace | Ymddiriedolaeth Adfywio'r Meysydd Glo |
| Jill Wilde | Rheolwr Prosiect, Ymddiriedolaeth Adfywio'r Meysydd Glo |
| *Ysgrifenyddiaeth:* | |
| Roger Chaffey | Clerc y Pwyllgor |
| Liz Wilkinson | Dirprwy Glerc y Pwyllgor |

**Eitem 1: Ymddiheuriadau ac eilyddion**

1. Roedd Rosemary Butler yno fel eilydd i Tom Middlehurst, oedd yn anfon ei ymddiheuriadau.

**Eitem 2: Datgan Buddiannau**

2.1 Gwnaethpwyd y datganiadau canlynol:

- Dywedodd Peter Black ei fod yn Aelod o Gyngor Dinas a Sir Abertawe;
- Dywedodd Janet Davies ei bod yn Aelod o Gyngor Cymuned Llanhari;
- Dywedodd William Graham ei fod yn Aelod o Gyngor Bwrdeistref Sirol Casnewydd;
- Dywedodd Dai Lloyd ei fod yn Aelod o Gyngor Dinas a Sir Abertawe.

**Eitem 3: Adroddiad y Gweinidog: LGH-05-02 (p.1)**

3.1 Cafwyd peth trafodaeth yngln ag adroddiad yr Archwilydd Dosbarth ar Gyngor Sir Merthyr Tudful. Mynegodd yr Aelodau bryder y gallai’r gwaharddiad diweddar ar y Cynghorwyr ei gwneud yn anodd i’r awdurdod ymateb i’r adroddiad o fewn y cyfnod dynodedig o bedwar mis.

3.2 Croesawai’r Aelodau yr ymgynghori ar y canllawiau statudol drafft ar lwfansau aelodau awdurdodau lleol. Teimlid y dylid rhoi rhagor o ystyriaeth i’r meini prawf cymhwyster ar gyfer y cynllun diswyddo arfaethedig. Yn ychwanegol at hynny, awgrymwyd y dylai un cynllun teithio a chynhaliaeth weithredu drwy’r awdurdodau lleol i gyd.

3.3 Nododd y Pwyllgor nad oedd gwybodaeth yngln â chynigion ar gyfer strwythurau gwleidyddol newydd wedi dod i law oddi wrth bum awdurdod lleol. Bu gofyn i Gyngor Sir Conwy ymgynghori ymhellach cyn cael cytundeb ar ei gynigion.

3.4 Cytunodd y Gweinidog i ddarparu manylion ar y cynnydd mewn canfod ffynonellau cyllid posibl ar gyfer atgyweirio difrod llifogydd yng Nghaerleon, yn dilyn trafodaethau gyda’r Gweinidog dros yr Amgylchedd.

3.5 Croesawai’r Aelodau y camau yr oedd cynghorau yn eu cymryd i roi gwybod i ofalwyr bod modd iddynt gael eu hanwybyddu at ddibenion treth wrth gyfrifo treth y cyngor. Teimlid y dylid cyfuno hyrwyddo’r anwybyddu hwn ag asesiadau gofalwyr.

3.6 Cytunodd y Gweinidog i adrodd yn ôl i’r Pwyllgor am y cymorth a’r canllawiau oedd ar gael i gynghorau tref a chymuned yngln â chynyddu mynediad cyhoeddus i’r rhyngrwyd.

3.8 Codwyd pryder am yr amser a gymerai i gymeradwyo ceisiadau nawdd Rhoi Cymunedau’n Gyntaf mewn rhai achosion. Roedd yn hanfodol canfod beth oedd achos yr anawsterau oedd yn codi er mwyn gallu gwneud y prosesau cymeradwyo a dyrannu yn fwy effeithlon.

3.8 Croesawai’r Aelodau’r cynnydd oedd yn digwydd mewn perthynas â rhaglen Rhoi Cymunedau’n Gyntaf, yn enwedig y rhan a chwaraeai’r sector preifat drwy ddyfarniad o £63,600 i Fusnes yn y Gymuned i greu cysylltiadau cynaliadwy gydag ymgyrchoedd cymunedol.

3.9 Nododd y Pwyllgor y byddai adolygiad ffin Llangollen wedi ei gwblhau erbyn diwedd Mawrth.

3.10 Cytunodd y Gweinidog i ddarparu adroddiad i’r Pwyllgor ar ganlyniad yr ymateb i’r ymgynghoriad ar ‘Ryddid a Chyfrifoldeb mewn Llywodraeth Leol: Datganiad Polisi gan Lywodraeth Cynulliad Cymru.’

**Eitem 4: Ystyried Ail Adroddiad Blynyddol Llywodraeth Cynulliad Cymru ar Gynhwysiant Cymdeithasol yng Nghymru: LGH-05-02 (p.2)**

4.1 Dywedodd y Gweinidog y byddai Ail Adroddiad Blynyddol Llywodraeth Cynulliad Cymru ar Gynhwysiant Cymdeithasol yng Nghymru yn cael ei drafod yn y cyfarfod llawn ar 21 Mawrth.

Roedd y targedau oedd wedi eu cynnwys yn yr adroddiad wedi cael eu hadolygu ar ôl i'r Pwyllgor eu hystyried yn y cyfarfod ar 13 Chwefror. Gwnaethpwyd i'r targedau gyd-fynd â 'Chynllun i Gymru 2001' Llywodraeth Cynulliad Cymru a Chynlluniau Gweithredu'r Cynulliad.

4.2 Codwyd y pwyntiau canlynol yn ystod y drafodaeth:

- Cytunai'r Pwyllgor fod yr adroddiad yn rhoi arolwg cyffredinol cynhwysfawr o'r gwaith yr oedd Llywodraeth Cynulliad Cymru yn ei wneud i hyrwyddo cynhwysiant cymdeithasol. Croesawai'r Aelodau'r ffaith bod targedau mwy pendant a mesuradwy wedi eu cynnwys yn yr adroddiad. Roedd angen peirianweithiau addas i fonitro cynnydd yn erbyn y targedau hyn yn nhermau canlyniad a phroses fel ei gilydd.

- Codwyd pryder am yr anawsterau y mae pobl ddigartref yn eu hwynebu wrth gyrchu gwasanaethau gofal iechyd sylfaenol. Roedd Adroddiad y Comisiwn ar Ddigartrefedd yn cynnwys argymhellion y dylai'r Gweinidog dros Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol hyrwyddo mynediad cyfartal i wasanaethau gofal iechyd. Awgrymwyd y dylai'r Adroddiad ar Gynhwysiant Cymdeithasol gynnwys rhagor o fanylion am y camau y mae Llywodraeth Cynulliad Cymru yn eu cymryd i wella hygyrchedd gwasanaethau meddygon teulu i bobl ddiymgeledd a'r rhai sy'n cael eu heithrio'n gymdeithasol. Cytunodd Dai Lloyd i ddarparu awgrymiadau ar gyfer gwelliannau i adran gofal iechyd sylfaenol yr Adroddiad i'r Gweinidog.

- Pwysleisiodd yr Aelodau yr angen i sicrhau mynediad i ofal iechyd sylfaenol i blant a phobl ifanc. Byddai hynny'n gymorth i ganfod a diagnosio anghenion iechyd arbennig, megis anhwylderau lleferydd, yn gynnar.

- Roedd yn bwysig datblygu strategaethau i gynyddu mynediad i wasanaethau deintyddol o ystyried y prinder deintyddion mewn ardaloedd difreintiedig.

- Awgrymwyd y dylid gosod pwyslais uwch ar ddarparu gwasanaethau a gweithgareddau adloniadol i bobl ifanc. Dywedodd y Gweinidog y byddid yn ystyried cynnwys rhagor o wybodaeth am wasanaethau ieuenctid mewn Adroddiadau Blynyddol ar Gynhwysiant Cymdeithasol yn y dyfodol.

- Teimlai'r Aelodau y dylid rhoi ystyriaeth i wella a chynnal nawdd i sefydliadau allweddol sy'n ceisio ymgodymu â dieithrio cymdeithasol yng Nghymru, megis Gofal a Thrwsio a Chymorth i Fenywod yng Nghymru.

- Croesawai'r Pwyllgor y £2 miliwn oedd ar gael i gynnal Swyddfeydd Post mewn ardaloedd gwledig. Byddai'r nawdd yn cael ei ddefnyddio i dalu costau unwaith yn unig ar gyfer sefydlu Swyddfeydd Post cymunedol. Nodwyd bod gwaith hefyd ar y gweill ar gynigion i gefnogi cadw Swyddfeydd Post mewn ardaloedd trefol difreintiedig.

- Pwysleisiodd yr Aelodau bwysigrwydd darparu gwasanaethau i gynorthwyo plant o dan oed

ysgol. Byddai angen gwella'r cyfleoedd hyfforddi er mwyn cynyddu nifer y gweithwyr cymwys oedd ar gael i symud yr agenda hon yn ei blaen.

- Cytunodd y Gweinidog i ysgrifennu at y Gweinidog priodol yn Llywodraeth y DU yngln â gweithredu argymhellion Waterhouse a'r trefniadau eiriolaeth annibynnol yn yr uned gadarn newydd ar gyfer pobl 15-17 oed yng Ngharchar y Parc, Pen-y-bont ar Ogwr.

4.3 Gwahoddodd y Cadeirydd y Gweinidog i ystyried barn y Pwyllgor ar yr Ail Adroddiad Blynyddol ar Gynhwysiant Cymdeithasol yng Nghymru cyn y drafodaeth yn y Cyfarfod Llawn. Cytunodd y Cadeirydd i ysgrifennu at Gadeirydd y Pwyllgor Cyfle Cyfartal yngln â'r camau y gallai Llywodraeth Cynulliad Cymru eu cymryd i wella mynediad i wasanaethau i'r anabl, yn enwedig i siopau a swyddfeydd post, drwy, o bosibl, roi rhan i Siambrau Masnach.

**Eitem 5: Gwarchod defnyddwyr ym maes codi ac atgyweirio tai – Adroddiad cynnydd: LGH-05-02 (p.3)**

5.1 Dywedodd y Gweinidog fod y Cynulliad Cenedlaethol wedi dod i chwarae rhan gynyddol mewn materion defnyddwyr yn ymwneud ag adeiladu a phrynu tai, o ganlyniad i broblemau a gafwyd ar stadau yn Ne Cymru. Roedd y Gyfarwyddiaeth Dai yn parhau i weithio gyda'r Cyngor Cenedlaethol Adeiladu Tai ar bwnc morter meddal.

5.1 Codwyd y pwyntiau canlynol yn ystod y drafodaeth:

- Croesawai'r Pwyllgor y cyswllt rhwng swyddogion Llywodraeth Cynulliad Cymru a'r Cyngor Cenedlaethol Adeiladu Tai i drafod pryderon am dai yn Ne Cymru oedd wedi eu hadeiladu â morter gwan. Er hynny, mynegodd yr Aelodau bryder am yr anghyfleustra a'r straen emosiynol a brofwyd gan berchnogion tai o ganlyniad i'r ymchwiliadau oedd yn mynd yn eu blaenau o hyd. Unwaith y byddai diffygion adeiladu wedi eu nodi, teimlid y dylid cytuno ar gamau adferol a'u gweithredu mewn amser byr.

- Mynegwyd gofid am y gostyngiad posibl ym mhrisiau tai o ganlyniad i ddiffygion adeiladu a phroblemau ailwerthu wedi hynny.

- Croesawai'r Pwyllgor y gwerthusiad o Gynllun Nod Ansawdd Llywodraeth y DU, oedd wedi ei fwriadu i fynd i'r afael â masnachwyr anonest. Roedd Llywodraeth y DU yn ystyried adroddiad gwerthuso y cynllun peilot a byddai'r canlyniad ar gael cyn bo hir.

5.2 Gwahoddodd y Cadeirydd y Gweinidog i ddarparu adroddiad cynnydd pellach ar warchod defnyddwyr ym maes adeiladu ac atgyweirio tai yn ystod tymor yr hydref.

**Eitem 6: Cyflwyniad gan y Cyngor Cenedlaethol Adeiladu Tai:**

**LGH-05-02 (p.4)**

6.1 Croesawodd y Cadeirydd gynrychiolwyr y Cyngor Cenedlaethol Adeiladu Tai (NHBC) i’r cyfarfod ac fe’u gwahoddodd i roi eu cyflwyniad.

6.2 Dywedodd Imtiaz Farookhi mai cwmni dosbarthu dielw oedd yn annibynnol o’r Llywodraeth a’r diwydiant adeiladu tai fel ei gilydd oedd y Cyngor Cenedlaethol Adeiladu Tai. Prif bwrpas y Cyngor oedd cynorthwyo diwydiant adeiladu tai y DU a sectorau sy’n ymwneud â thai i wella ansawdd tai newydd. Amlinellodd rôl y Cyngor mewn codi safonau adeiladu a darparu gwasanaethau rheoli adeiladu.

6.3 Codwyd y pwyntiau canlynol yn ystod y drafodaeth:

- Gofynnodd yr Aelodau am y camau a gymerir gan y Cyngor Cenedlaethol Adeiladu Tai i annog adeiladwyr cofrestredig i fabwysiadu arferion gorau. Teimlai Rod MacEachrane bod yr arferion gorau a luniwyd gan y Cyngor wedi cael eu mabwysiadu gan rai adeiladwyr tai ond y byddai’n cymeryd tipyn o amser i ddylanwadu ar y diwydiant yn ei gyfanrwydd.

- Cafwyd peth trafodaeth am y lefelau gwarchod cymharol a ddarperid gan y Cyngor a chan awdurdodau lleol. Wrth arfer y swyddogaeth rheoli adeiladu, dywedodd Imtiaz Farookhi fod yna dystiolaeth yn awgrymu bod y sector preifat yn darparu gwell gwarchodaeth i berchnogion tai na’r sector cyhoeddus. Cytunodd y Cyngor i ddarparu gwybodaeth ystadegol i gefnogi’r hawliad hwn, er enghraifft, cymharu nifer yr hawliadau gwarantiad NHBC a wnaethpwyd yn erbyn eiddo a archwiliwyd gan awdurdodau lleol a’r rhai a archwiliwyd gan y sector cyhoeddus.

- Cododd y Pwyllgor bryderon yngln â pha mor gyflym y câi’r diffygion adeiladu a ganfuwyd eu datrys. Nodwyd y byddai faint o amser a gymerid i ddatrys problemau yn amrywio yn dibynnu ar gymhlethdod yr achos.

- Lle yr oedd diffygion adeiladu difrifol wedi digwydd a bod problemau’n dal heb eu datrys, awgrymwyd y dylai’r Cyngor Cenedlaethol Adeiladu Tai brynu eiddo ar bris y farchnad. Dywedodd Rod MacEachrane fod y Cyngor wedi bod yn ymwneud â phrynu eiddo diffygiol, er nad oedd hynny’n digwydd yn aml.

- Cytunodd y Cyngor i ddarparu gwybodaeth ar nifer y penderfyniadau yr aethpwyd i’r afael â hwy a lefel problemau heb eu datrys yn ystod y 12 mis diwethaf, yn cynnwys faint o eiddo yr oedd wedi ei brynu, ynghyd â’r camau a gymerwyd wedi hyn yn Ne Cymru.

- Mynegodd yr Aelodau bryder yngln ag annibyniaeth y Cyngor Cenedlaethol Adeiladu Tai ac awgrymasant y gallai buddiannau wrthdaro gan ei fod yn derbyn cyllid gan y sector adeiladu preifat. Dywedodd Imtiaz Farookhi fod y Cyngor yn codi tâl ar adeiladwyr cofrestredig er mwyn ariannu gwasanaeth rheoleiddio i adeiladwyr tai a defnyddwyr yn ogystal â’r diogelwch yswiriant yr oedd yn ei ddarparu i brynwyr tai newydd.

- Mynegodd y Pwyllgor bryder fod problemau morter gwan yn codi'n amlach yn Ne Cymru. Rhoddwyd esboniadau posibl i'r Aelodau megis pa mor aml y caiff morter ei gymysgu ar y safle a phrinder gweithwyr medrus. Cydnabyddai'r Pwyllgor y gwaith a wnaethpwyd hyd yma gan y Cyngor Cenedlaethol Adeiladu Tai i gynorthwyo i fynd i'r afael â'r broblem ond teimlai fod gofyn am reolaeth bellach mewn achosion lle y gellid olrhain y broblem at gwmni adeiladu unigol. Cytunai'r Aelodau ei bod yn angenrheidiol parhau ag ymdrechion i ddileu'r broblem hon.

- Nododd yr Aelodau fod y Cyngor Cenedlaethol Adeiladu Tai yn gweithio gydag adeiladwyr tai ar ddylunio datblygiadau tai er mwyn hwyluso deiliadaeth gymysg a sicrhau cymunedau cynaliadwy.

6.4 Diolchodd y Cadeirydd i gynrychiolwyr y Cyngor am roi eu cyflwyniad i'r Pwyllgor ac am ateb cwestiynau'r Aelodau, ac edrychai ymlaen at dderbyn y wybodaeth ychwanegol maes o law.

**Eitem 7: Adolygiad polisi adfywio cymunedol – Sesiwn ymgynghori llafar**

7.1 Croesawodd y Cadeirydd Alan Wallace a Jill Wilde o Ymddiriedolaeth Adfywio'r Meysydd Glo a gwahoddodd hwy i roi eu cyflwyniad.

7.2 Rhoddodd Jill Wilde amlinelliad o waith yr Ymddiriedolaeth a'r hyn yr oedd wedi ei gyflawni hyd yma. Dywedodd fod yr Ymddiriedolaeth wedi cyflwyno cynigion am nawdd pellach i Lywodraeth Cynulliad Cymru i gefnogi ei gwaith dros y cyfnod o 3 blynedd o 2002-05.

7.3 Pwysleisiodd Jill Wilde gyfraniad yr Ymddiriedolaeth tuag at ddatblygu rhaglen Rhoi Cymunedau'n Gyntaf, sut yr oedd hynny'n cyflenwi'r rhaglen adfywio cymunedol ac yn cynorthwyo i gefnogi cymunedau cynaliadwy.

7.4 Codwyd y pwyntiau canlynol yn ystod y drafodaeth:

- Teimlid y dylai'r nawdd barhau er mwyn galluogi'r Ymddiriedolaeth i adeiladu ar ei llwyddiant hyd yma. Dywedodd Alan Wallace y byddai'r adnoddau a sicrhawyd gan Lywodraeth Cynulliad Cymru yn cael eu defnyddio i ddenu rhagor o nawdd o ffynonellau eraill. Roedd yr Ymddiriedolaeth wedi sefydlu uned benodol i ddynodi darparwyr nawdd posibl, yn cynnwys y rheiny yn y sector corfforaethol a'r byrddau loteri. Awgrymodd yr Aelodau fod bwrdd y loteri yn ffynhonnell arbennig o addas ar gyfer ariannu drwy gyfalaf.

- Pwysleisiodd Alan Wallace bwysigrwydd datblygu potensial ar gyfer galluogi cymunedau a sicrhau cymunedau cynaliadwy. Roedd yn hanfodol cydnabod yr anghenion amrywiol sydd gan sefydliadau cymunedol ac ystyried hynny wrth gefnogi datblygu potensial. Roedd angen cynyddu hyblygrwydd nawdd er mwyn mynd i'r afael ag anghenion grwpiau a sefydliadau unigol.

- Cytunai’r Aelodau fod angen caniatáu i sefydliadau gymryd risgiau wedi eu rheoli wrth ddatblygu prosiectau adfywio cymunedol a’u symud yn eu blaenau. Byddai dysgu o brosiectau oedd wedi methu yn chwarae rhan bwysig mewn dynodi blaenoriaethau ar gyfer datblygu potensial.

- Tynnodd Jill Wilde sylw at rôl hanfodol cistiau cymunedol mewn datblygu potensial. Roedd y rhain yn galluogi sefydliadau a grwpiau bach i gael mynediad i grantiau i symud prosiectau oedd yn anelu at adfywio cymunedol yn eu blaenau. Awgrymwyd y byddai rhagor o fudd yn deillio o gistiau cymunedol pe câi eu hygyrchedd ei ledu a’i symleiddio.

- Pwysleisiodd Alan Wallace bwysigrwydd asedau y mae’r gymuned yn berchen arnynt mewn datblygu cymunedau cynaliadwy sy’n eu hariannu eu hunain.

7.5 Diolchodd y Cadeirydd i gynrychiolwyr Ymddiriedolaeth Adfywio’r Meysydd Glo am roi eu cyflwyniad ac am ateb cwestiynau’r Aelodau.

**Eitem 8: Adolygiad Polisi adfywio cymunedol – Ystyried materion sy’n dod i’r amlwg: LGH-05-02 (p.5)**

8.1 Cafwyd peth trafodaeth yngln â’r diffiniad o gymunedau ac adfywio cymunedol. Teimlai’r Aelodau y byddai’n bwysig osgoi bod yn rhy orchmynnol wrth ddiffinio cymunedau.

8.2 Cytunai’r Pwyllgor fod rhoi rhan i’r gymuned yn anhepgor yn y broses adfywio. Roedd yn hanfodol mabwysiadu dull cynhwysol, hyrwyddo cymryd rhan a thynnu cymunedau i mewn ac ennill eu hymrwymiad, yn cynnwys unigolion a oedd yn draddodiadol wedi cael eu cau allan.

8.3 Teimlid bod awdurdodau lleol yn chwarae rhan allweddol yn rhaglen Rhoi Cymunedau’n Gyntaf, yn enwedig mewn datblygu partneriaethau llwyddiannus. Byddai angen mabwysiadu agwedd hyblyg tuag at nawdd a fyddai’n caniatáu i gymunedau gymryd risgiau wedi eu rheoli wrth ddatblygu prosiectau adfywio.

8.4 Teimlai’r Aelodau fod gofyn am ragor o waith i archwilio rôl sefydliadau gwirfoddol mewn adfywio cymunedol. Roedd yn bwysig cydnabod yr amrywiaeth o sefydliadau o fewn y sector.

**Eitem 9: Blaenraglen Waith Strategol – Ystyried blaenraglen waith pwyllgorau pwnc eraill: LGH-05-02 (p.6)**

9.1 Cymeradwyodd y Pwyllgor raglenni gwaith y Pwyllgor Amaethyddiaeth a Datblygu Gwledig a’r Pwyllgor Datblygu Economaidd.

**Eitem 10: Cofnodion cyfarfodydd 7 a 13 Chwefror: LGH-03-02 (min) ac LGH-04-02 (min)**

1. Nodwyd y dylid rhoi ‘bore’ yn lle ‘prynhawn’ yn y sylwadau agoriadol a gynhwyswyd

yng nghofnodion cyfarfod 7 Chwefror. Ar ôl gwneud hynny cytunwyd ar gofnodion 7 a 13 Chwefror.

**CRYNODEB O'R PWYNTIAU GWEITHREDU**

1. Cytunodd y Gweinidog i ddarparu adroddiad i'r Pwyllgor ar ganlyniad yr ymateb i'r ymgynghoriad ar 'Ryddid a Chyfrifoldeb mewn Llywodraeth Leol: Datganiad Polisi gan Lywodraeth Cynulliad Cymru.'

2. Cytunodd y Gweinidog i ddarparu manylion ar y cynnydd mewn canfod ffynonellau cyllid posibl ar gyfer atgyweirio difrod llifogydd yng Nghaerleon, yn dilyn trafodaethau gyda'r Gweinidog dros yr Amgylchedd.

3. Cytunodd y Gweinidog i adrodd yn ôl i'r Pwyllgor am y cymorth a'r canllawiau oedd ar gael i gynghorau tref a chymuned yngln â chynyddu mynediad cyhoeddus i'r rhyngrwyd.

4. Cytunodd y Gweinidog i roi gwybod i'r Pwyllgor am unrhyw sylwadau a dderbynnid gan gynghorau tref a chymuned yngln ag anawsterau i gael mynediad i'r rhyngrwyd.

5. Cytunodd Dai Lloyd i ddarparu awgrymiadau ar gyfer gwelliannau i adran gofal iechyd sylfaenol yr Adroddiad ar Gynhwysiant Cymdeithasol i'r Gweinidog.

6. Cytunodd y Cadeirydd i ysgrifennu at Gadeirydd y Pwyllgor Cyfle Cyfartal yngln â'r camau y gellid eu cymryd i wella mynediad i wasanaethau i'r anabl, yn enwedig i siopau a swyddfeydd post, drwy, o bosibl, roi rhan i Siambrau Masnach.

7. Cytunodd y Cyngor Cenedlaethol Adeiladu Tai i ddarparu manylion ar nifer y penderfyniadau yr aethpwyd i'r afael â hwy a problemau heb eu datrys yn ystod y 12 mis diwethaf, yn cynnwys faint o eiddo yr oedd wedi ei brynu, ynghyd â'r camau a gymerwyd wedi hyn yn Ne Cymru.

8. Cytunodd y Cyngor Cenedlaethol Adeiladu Tai i ddarparu gwybodaeth ystadegol i gefnogi'r hawliad hwn, er enghraifft, yn cymharu nifer yr hawliadau a wnaethpwyd yn erbyn eiddo a archwiliwyd gan awdurdodau lleol a'r sector preifat.

9. Cytunodd y Gweinidog i ysgrifennu at y Gweinidog priodol yn Llywodraeth y DU yngln â gweithredu argymhellion Waterhouse a'r trefniadau eiriolaeth annibynnol yn yr uned gadarn newydd ar gyfer pobl 15-17 oed yng Ngharchar y Parc, Pen-y-bont ar Ogwr.